Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Maesglas
Ffordd Maesglas
Maesglas
Casnewydd
NP20 3DG

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/01/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Maesglas yng Nghasnewydd. Mae gan yr ysgol 291 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 35 o ddisgyblion sy'n mynychu'r feithrinfa'n rhan-amser. Mae 10 dosbarth, gan gynnwys tri dosbarth oedran cymysg.

Gwyn Prydeinig yw cefndir ethnig y rhan fwyaf o ddisgyblion. Daw gweddill y disgyblion o ystod eang o grwpiau ethnig. Mae tua 22% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel ail iaith. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg gartref.

Mae rhyw 41% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru (19%). Mae anghenion dysgu ychwanegol gan ryw 33% o ddisgyblion, sydd eto uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol (25%). Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Yn Chwefror 2012 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Maesglas yn 2016-2017 yw £3,519. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yng Nghasnewydd yw £4,945 a'r lleiafswm yw £2,865. Mae Ysgol Gynradd Maesglas yn safle 16 o'r 44 ysgol gynradd yng Nghasnewydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- safonau llefaredd yn dda
- llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd priodol
- rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda
- rhan fwyaf y disgyblion yn llawn cymhelliant i ddysgu
- dealltwriaeth dda gan ddisgyblion o sut i gadw'n ddiogel ac iach
- perthnasoedd cadarnhaol gan staff â disgyblion
- gwybodaeth bynciol ac arbenigedd addas gan athrawon
- bod amgylchedd gofalgar a chynhwysol ym mhob dosbarth
- bod yr amgylchedd ysgol deniadol yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd
- nid yw safonau Cymraeg yn ddigon da
- nid yw presenoldeb yn cymharu'n dda â lefelau mewn ysgolion tebyg
- nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn pynciau eraill
- nid yw'r addysgu yn sicrhau bob amser bod disgyblion yn gwneud cynnydd da
- nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith o hyd
- nid yw trefniadau diogelu yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- arweinwyr yn rhoi ystyriaeth uchel i les disgyblion
- rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella
- llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol
- uwch arweinwyr yn ymgymryd ag ystod briodol o weithgareddau monitro
- arweinwyr yn ymwybodol o lawer o feysydd gwella'r ysgol
- cynllun datblygu'r ysgol yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer gweithgareddau'r ysgol
- arweinwyr yn defnyddio grantiau'n briodol i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed
- staff yn cael cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau datblygiad proffesiynol

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr wedi mynd i’r afael yn ddigon da â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- nid yw llywodraethwyr yn cynnig her ddigonol i arweinyddiaeth yr ysgol ac nid ydynt yn bodloni’r holl ofynion statudol
- nid yw effaith gweithgareddau monitro wedi gwella deilliannau disgyblion a’r ddarpariaeth eto
- nid yw adroddiadau hunanarfarnu yn arfarnol ac nid ydynt yn canolbwyntio ar effaith camau gweithredu ar wella deilliannau disgyblion
- nid yw’r ysgol wedi mynd i’r afael â phob un o’r argymhellion o’r arolygiad diwethaf

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llythrennedd a rhifedd ar gyfer disgyblion mwy abl

A2 Gwella presenoldeb

A3 Gwella cynlluniau athrawon fel bod gweithgareddau yn cyfateb i anghenion yr holl ddisgyblion

A4 Sicrhau bod disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio’u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn pynciau eraill

A5 Mynd i’r afael â’r materion diogelu ac iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A6 Miniogi ffocws yr hunanarfarnu ar effaith camau a gymeir a deilliannau gwell i ddisgyblion

### Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion islaw hynny a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

O fan cychwyn isel, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwella eu medrau llefaredd yn dda. Yn y dosbarth Derbyn, maent yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac oedolion ac yn dechrau siarad yn glir ynglŷn â'r hyn y maent yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ansoddeiriau'n dda i ddisgrifio cymeriadau y maent yn eu hadnabod, ac mae disgyblion mwy abl yn dechrau mynegi'u barnau yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llefaredd da. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, maent yn disgrifio gwahaniaethau a nodweddion tebyg rhwng bywyd yng Nghymru a Chameroon, ac ym Mlwyddyn 6 maent yn siarad yn sicr am nodweddion wyrcws oes Fictoria. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar eraill ac yn canolbwyntio'n barhaus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu'u medrau darllen. Mae disgyblion mwy abl yn darllen yn hyderus o destunau cyfarwydd a gyda rhuglder priodol. Maent yn esbonio cynnwys storïau yn dda ac yn cofio digwyddiadau'n gywir. Fodd bynnag, ystod gyfyngedig o strategaethau y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn eu defnyddio pan fyddant yn dod ar draws geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel briodol. Maent yn darllen yn addas o rugl a gyda dealltwriaeth gadarn o ystod o destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau darllen ac yn nodi eu hoffter am fathau gwahanol o storïau ac awduron. Megis dechrau datblygu y mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddefnyddio medrau darllen lefel uwch, fel llithrddarllen a bwrw golwg ar destunau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn dda. Mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio atalnodi yn gywir. Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 1 a 2 yn ysgrifennu at amrywiaeth o ddibenion gwahanol gan ddefnyddio geirfa addas ac ystod gynyddol o atalnodi. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 1, maent yn ysgrifennu llyfrynnau syml ar gylch bywyd pryfed, ac ym Mlwyddyn 2 maent yn defnyddio byrddau stori'n effeithiol i helpu cynllunio'u hysgrifennu.

Mae llawer o ddisgyblion yn parhau i wella eu medrau ysgrifennu yn dda yng nghyfnod allweddol 2. Ym Mlwyddyn 3, mae disgyblion yn ysgrifennu hysbysebion manwl ar gyfer filas Rhufeinig a cherddi diddorol am y môr, ac ym Mlwyddyn 5 mae disgyblion yn ysgrifennu ffeiliau ffeithiau cywir am Wlad yr Iâ. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus at ystod o ddibenion. Ym Mlwyddyn 6, maent yn ysgrifennu llythyrau darbwyllol manwl ar fuddion cadw anifail anwes yn y dosbarth, a dadleuon cytbwys ar ganiatáu i ddisgyblion ddod â

ffonau symudol i'r ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o atalnodi priodol, yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa llawn dychymyg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn defnyddio iaith aeddfed a llawn mynegiant i ennyn diddordeb y darllenydd yn ddigon da.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu llawysgrifen glwm daclus, ond nid yw lleiafrif yn ysgrifennu'n daclus bob amser nac yn cyflwyno'u gwaith i safon ddigon uchel, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae llawer o ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau llythrennedd.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn gyson dda mewn pynciau y tu allan i wersi Saesneg, yn enwedig i ysgrifennu'n greadigol ac yn estynedig.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn fwyfwy hyderus. Yn y dosbarth Meithrin, mae disgyblion yn dechrau defnyddio iaith gymharol briodol, er enghraifft i ddisgrifio'r tair arth yn stori Elen Benfelen. Yn y dosbarth Derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn canfod rhifau coll mewn dilyniannau ac yn ychwanegu symiau o arian hyd at 20 ceiniog yn gywir. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dyblu rhifau i fyny i 100 yn gywir ac yn datrys problemau bywyd go iawn gan ddefnyddio adio a thynnu yn dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn briodol yng nghyfnod allweddol 2. Ym Mlwyddyn 3, maent yn defnyddio'u gwybodaeth am luosi i ddatrys problemau'n llwyddiannus, ac ym Mlwyddyn 5, maent yn trefnu rhifau negyddol yn gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae medrau rhif cadarn gan fwyafrif y disgyblion. Er enghraifft, maent yn pennu disgowntiau canran ar brisiau gwyliau ac yn plotio cyfesurynnau yn gywir. Ar draws yr ysgol, fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn gwneud gymaint o gynnydd ag y gallent o ran datblygu'u medrau rhifedd, gan nad yw gweithgareddau yn eu hymestyn a'u herio digon bob amser.

Nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'u medrau rhifedd yn ddigon da mewn pynciau eraill y tu allan i'w gwersi mathemateg.

Mae safonau mewn TGCh yn briodol ar draws yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'u medrau yn bwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn yn symud tegan rhaglenadwy o amgylch coetir rhithwir yn gywir ac yn tynnu lluniau dychmygus ar gyfrifiadur llechen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fedrus i ymchwilio i wybodaeth ac maent yn defnyddio offer cyflwyno yn addas. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn defnyddio offer sain ac animeiddio syml i greu ffilm Gymraeg amdanynt eu hunain, ac ym Mlwyddyn 5 maent yn cynhyrchu ffeiliau ffeithiau am y wyrcws yn oes Fictoria. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn creu taenlenni cywir ac yn defnyddio cronfeydd data i ddadansoddi, dehongli a threfnu canlyniadau yn gywir.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i orchmynion a chyfarwyddiadau syml yn Gymraeg. Ym Mlwyddyn 2, mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau defnyddio patrymau brawddegau y maent yn eu gwybod, ac ystod fach o eirfa i ddisgrifio'u hunain a'u hamgylchoedd yn hyderus. Maent yn ysgrifennu brawddegau byr gan ddefnyddio iaith briodol, er enghraifft i ddisgrifio sut maent yn

teimlo. Mae disgyblion mwy abl ym Mlwyddyn 2 yn darllen testunau syml gyda dealltwriaeth ac ynganiad priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn datblygu'u medrau llefaredd yn briodol i siarad am bynciau cyfarwydd. Ym Mlwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau gyda mynegiant a dealltwriaeth addas. Yng nghyfnod allweddol 2, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn adeiladu'n systematig ar eu medrau cynharach ac mae eu gallu i ysgrifennu yn Gymraeg yn gyfyngedig. Ar hyd yr ysgol, nid yw disgyblion yn defnyddio'u medrau Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg yn ddigon da.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad dros y pedair blynedd diwethaf mewn llythrennedd a rhifedd ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch na'r disgwyl wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch yn gyffredinol o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn y 50% is yn gyffredinol o gymharu ag ysgolion tebyg. O ran y lefel uwch na'r disgwyl, gosodir yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â disgyblion eraill ar y deilliant disgwyliedig mewn llythrennedd a rhifedd. Nid oes unrhyw batrwm o ran y deilliant uwch na'r disgwyl mewn llythrennedd, ond mewn rhifedd, mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na disgyblion eraill yn gyffredinol.

Yng nghyfnod allweddol 2, yn gyffredinol, nid yw disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â disgyblion eraill mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig neu'r lefel uwch na'r disgwyl mewn Saesneg. Mae'r patrwm yn fwy amrywiol ar y lefel uwch na'r disgwyl mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

### Lles: Digonol

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd staff yn delio'n brydlon ag unrhyw ddigwyddiadau ac yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at gadw'n iach a heini, ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o sut i fwyta'n iach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i wneud ymarfer corff ac maent yn mwynhau'r ystod eang o weithgareddau ar ôl ysgol a gynigir gan yr ysgol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn mynychu clybiau pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi. Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o ddisgyblion o sut i gadw eu hunain yn ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda mewn gwersi a thu allan i wersi. Mae bron pob disgybl yn trin ei gilydd â'r oedolion yn yr ysgol â pharch. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio gyda lefelau da o ganolbwyntio a dyfalbarhad. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac yn gweithio gyda phartneriaid neu grwpiau yn llwyddiannus.

Mae aelodau o gyngor yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cymryd eu rolau o ddifrif. Maent yn trefnu ystod o weithgareddau ysgol addas. Er enghraifft, maent yn dewis eitemau ar gyfer iard chwarae'r Cyfnod Sylfaen.

Mae disgyblion yn codi arian yn rheolaidd ar gyfer elusennau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, yn ddiweddar fe wnaethant gymryd rhan mewn menter gymunedol i godi arian trwy gynnal diwrnod heb wisg ysgol. Mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau cymunedol. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn canu mewn mannau lleol adeg y Nadolig, a chymerodd disgyblion hŷn ran mewn cystadleuaeth arddwriaeth leol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% gwaelod neu'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae ychydig o ddisgyblion yn cyrraedd yn hwyr ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o brofiadau dysgu difyr a diddorol sy'n diwallu anghenion llawer o ddisgyblion. Yn ogystal, mae staff yn cynnig ystod amrywiol o weithgareddau allgyrsiol, sy'n gwella profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu a chymhwyso'u dysgu mewn cyd-destunau ymarferol a dychmygus, gan gynnwys yn yr amgylchedd awyr agored. Yng nghyfnod allweddol 2, fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn cynllunio'n ddigon da i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau yn gynyddol, neu eu bod yn cael cynnig cwricwlwm cytbwys, addas. Er enghraifft, cyfleoedd cyfyngedig sydd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth mewn celf a thechnoleg dylunio.

Mae ffocws yr ysgol ar wella medrau llefaredd ac ysgrifennu disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio geirfa ehangach erbyn hyn, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o nodweddion mathau gwahanol o ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ymadroddion Cymraeg yn gyson mewn arferion bob dydd, ond nid ydynt yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn ddigon da. Yng nghyfnod allweddol 2, mae cynllunio athrawon ar gyfer Cymraeg yn anghyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'u medrau Cymraeg wrth iddynt symud drwy gyfnod allweddol 2. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod ddiddorol o weithgareddau diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys gwyliau dawns rhanbarthol, ymweliadau â safleoedd treftadaeth lleol ac ymweliadau gan storïwyr Cymreig â'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o weithgareddau i ddisgyblion wella eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd drwy weithgareddau ailgylchu. Mae athrawon yn cynllunio'n dda ar gyfer disgyblion i wella eu dealltwriaeth o wledydd eraill trwy destunau dosbarth; er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am fywyd yng Nghameroon ym Mlwyddyn 4.

## Addysgu: Digonol

Mae perthnasoedd gweithio cryf gan y rhan fwyaf o staff â disgyblion ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn yr ysgol ac o amgylch yr ysgol yn effeithiol. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu dychmygus sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae gwybodaeth bynciol gyfoes dda gan y rhan fwyaf o athrawon, ac maent yn defnyddio ystod o adnoddau ysgogol. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae'r addysgu yn mynd yn ei flaen ar gyflymder priodol. Mae'r rhan fwyaf o gynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion, er nad yw eu defnydd o gwestiynau mewn lleiafrif o ddosbarthiadau yn ymestyn dysgu'r disgyblion yn ddigon da bob amser.

Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cyfarwyddo gwaith plant gormod ac nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd bob tro i drefnu eu gwaith yn annibynnol. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai mwy abl. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael eu herio digon yn eu gwaith ac nid ydynt yn cyflawni gystal ag y gallent.

Mae llawer o athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ar eu gwaith, ond mae ansawdd adborth ysgrifenedig yn amrywio gormod o ddosbarth i ddosbarth. Nid yw llawer o athrawon yn eu sylwadau ysgrifenedig yn rhoi syniad ddigon clir i ddisgyblion ynglŷn â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu dysgu. Caiff disgyblion gyfleoedd i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith rhai eraill, ond effaith gyfyngedig y mae hyn yn ei chael ar wella medrau disgyblion.

Mae athrawon yn cynnal ystod o asesiadau perthnasol i fonitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda gan uwch arweinwyr i nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion ac i gynllunio ymyriadau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn glir o weithdrefnau olrhain yr ysgol faint o gynnydd y mae disgyblion wedi'i wneud yn eu dysgu o ganlyniad i hyn.

Mae trefniadau cadarn gan yr ysgol gydag ysgolion eraill yn y clwstwr ar gyfer safoni asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o farnau ar waith disgyblion yn gywir. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn glir ac yn cynnwys targedau defnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'r holl adroddiadau yn bodloni gofynion statudol ym mhob ffordd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o sut i gadw eu hunain yn ddiogel, gan gynnwys pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd. Gwneir trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy gyd-addoli a gweithgareddau cwricwlwm.

Mae trefniadau priodol ar waith gan yr ysgol ar gyfer nodi disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn mynd i'r afael â'r anghenion hyn yn gyflym ac yn rhoi strategaethau ymyrryd addas ar waith. Mae athrawon yn paratoi cynlluniau datblygu unigol defnyddiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth

yw eu targedau. Mae staff yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac yn adnewyddu targedau unigol mewn ymgynghoriad â rhieni. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Mae cysylltiadau buddiol rhwng yr ysgol ag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel gwasanaeth lleiafrifoedd ethnig yr awdurdod lleol, y seicolegydd addysgol a chwnselydd. Mae'r asiantaethau hyn yn darparu gwybodaeth a chymorth gwerthfawr i ddisgyblion a staff. Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau addas i wella presenoldeb, ond nid yw'r rhain wedi arwain at ddeilliannau gwell eto.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion yn llawn. Tynnodd y tîm arolygu sylw'r ysgol at ychydig o faterion diogelwch.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos cynhwysol lle teimla'r holl ddisgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael mynediad cyfartal i bob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynnal a chadw adeilad a thir yr ysgol i safon uchel. Maent yn darparu amgylchedd dysgu golau a deniadol i'r holl ddisgyblion. Caiff dysgu'r disgyblion ei gefnogi'n dda gan arddangosiadau o ansawdd da. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cael mynediad i ardal awyr agored addas y mae staff yn gwneud defnydd da ohoni i hyrwyddo dysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd llwyddiannus o le ychwanegol i greu ardaloedd addysgu gwerthfawr lle mae adnoddau sydd wedi'u trefnu'n dda ar gael yn rhwydd i gefnogi'r dysgu. Mae adnoddau ar draws yr ysgol o ansawdd da ac yn cyfateb yn dda i anghenion disgyblion. Ceir adnoddau TGCh digonol, ond nid yw llawer o athrawon yn eu defnyddio'n ddigon da i alluogi disgyblion i ddatblygu'u medrau TGCh ar draws y cwricwlwm.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth sydd newydd ei ffurfio yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu lles disgyblion. Maent yn gweithio'n bwrpasol gyda'i gilydd i greu cymuned ddysgu lwyddiannus, ac maent wedi cyfleu ymrwymiad o'r newydd i godi safonau yn glir i'r staff. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith fesuradwy ar wella deilliannau disgyblion yn y cyfnod cynnar hwn.

Mae dealltwriaeth dda gan bob aelod o staff o'u cyfrifioldebau ac maent yn cyflawni'u rolau yn dda. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'u hamser yn bwrpasol i arwain ar faterion pwysig yn ymwneud â gwella'r ysgol. Er enghraifft, maent yn dadansoddi data'n effeithiol i osod targedau heriol i ddisgyblion, ac yn adrodd gwybodaeth ddefnyddiol yn ôl i athrawon yn dilyn arsylwadau o wersi. Mae arweinwyr yn cyfranogi'n effeithiol mewn rheoli perfformiad athrawon. Mae'r trefniadau hyn yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn darparu cyfleoedd buddiol i staff rannu arbenigedd ei gilydd.

Nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â llawer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gwneud ymweliadau pwrpasol â'r ysgol, er enghraifft i fynd ar droeon dysgu. Cânt wybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol yn adroddiadau'r pennaeth bob tymor. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, ond nid yw eu cofnodion bob amser yn adlewyrchu'r penderfyniad a wnaethant. Nid yw llywodraethwyr yn sicrhau bod polisïau diweddar gan yr ysgol, ac nid yw eu hadroddiad blynyddol i rieni yn bodloni gofynion statudol yn llawn. Mae llywodraethwyr yn datblygu'u rôl fel ffrindiau beirniadol, ond nid ydynt yn herio arweinwyr a rheolwyr i wella safonau a darpariaeth yn ddigon da.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau casglu ystod ehangach o dystiolaeth uniongyrchol werthfawr i helpu arweinwyr i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Er enghraifft, mae'r rhaglen fonitro gynhwysfawr yn cynnwys arsylwadau o wersi, craffu ar lyfrau a chraffu ar gynllunio. Fodd bynnag, mae adroddiad hunanarfarnu presennol yr ysgol yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon arfarnol. Ar ei ffurf bresennol, sylfaen wan sydd ganddi ar gyfer cynllunio gwelliant. Nid yw'r ysgol yn defnyddio barnau rhieni a disgyblion i lywio ei phrosesau hunanarfarnu yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn dadansoddi ystod eang o wybodaeth am berfformiad disgyblion yn rheolaidd i nodi tueddiadau a meysydd i'w gwella. Mae hyn yn galluogi arweinwyr ac athrawon i adnabod grwpiau o ddisgyblion nad ydynt yn cyflawni gystal â'r disgwyl ac i roi datblygiadau perthnasol ar waith. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cyflwyno rhaglen llythrennedd gynhwysfawr. Mae hon wedi bod yn llwyddiannus o ran codi medrau llefaredd ac ysgrifennu disgyblion.

Mae blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn cysylltu'n briodol â gwybodaeth a gasglwyd drwy weithgareddau hunanarfarnu. Mae'n cynnwys nifer addas o flaenoriaethau sy'n canolbwyntio'n gywir ar godi safonau a datblygu medrau disgyblion. Mae pob blaenoriaeth yn cynnwys targedau mesuradwy, graddfeydd amser, personél, anghenion hyfforddi a chostau wedi'u nodi'n glir. Mae'r cynllun yn offeryn defnyddiol i helpu gyrru gwelliant yr ysgol yn ei flaen. Nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llawn â'r holl argymhellion o'r adroddiad arolygu blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol berthnasoedd buddiol gydag ystod o bartneriaid. Caiff hyn effaith fuddiol ar wella lles disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau cryf gydag asiantaethau eraill yn y gymuned, gan gynnwys grwpiau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a grwpiau lles. Mae disgyblion o Ysgol Arbennig Maes Ebbw yn ymweld â dosbarthiadau bob tymor i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ar y cyd. Mae'r trefniant hwn yn helpu disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol a chynhwysol tuag at ei gilydd. Mae partneriaeth gadarnhaol yr ysgol â gwasanaeth lleiafrifoedd ethnig yr awdurdod lleol yn sicrhau bod disgyblion sy'n astudio Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael cymorth o ansawdd da ar gyfer eu dysgu ac, o ganlyniad, mae llawer yn gwneud cynnydd da.

Mae athrawon yn cynnal perthnasoedd da gyda rhieni ac yn rhoi gwybodaeth addas iddynt drwy bolisi ‘drws agored’ yr ysgol, cylchlythyrau a system gyfathrebu electronig effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn ymgysylltu’n ddigon da â rhieni bob amser i ddeall nodau a blaenoriaethau’r ysgol, yn enwedig pwysigrwydd gwella presenoldeb disgyblion.

Ceir trefniadau addas i gefnogi trosglwyddo disgyblion i addysg uwchradd trwy gynlluniau pontio priodol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn ymweld â’r ysgol uwchradd leol i gymryd rhan mewn prosiect cerdd ac, o ganlyniad, maent yn perfformio cyngerdd i rieni. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn mynychu ‘dosbarthiadau meistr’ mewn Saesneg a mathemateg sy’n cael eu harwain gan athrawon uwchradd er mwyn eu paratoi ar gyfer disgwyliadau’r cwricwlwm uwchradd.

Mae’r ysgol yn gweithio’n briodol ag ysgolion cynradd lleol eraill ar ystod o weithgareddau, gan gynnwys safoni ac asesu gwaith disgyblion. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol ysgol i ysgol yn ddatblygiad diweddar lle mae arweinwyr ac athrawon yn gweithio â’i gilydd i rannu a datblygu arfer effeithiol. Fodd bynnag, mae effaith y rhain ar godi safonau yn gyfyngedig yn y cyfnod cynnar hwn.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae nifer ddigonol o athrawon a staff cymorth cymwys gan yr ysgol i fodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae’r rhan fwyaf o gynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion, yn enwedig y rheini y mae angen help ychwanegol arnynt. Mae hyn yn eu galluogi i gael mynediad i ystod lawn gweithgareddau’r cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn dechrau datblygu’n dda fel cymuned ddysgu broffesiynol. Ceir trefniadau priodol i alluogi staff i rannu arfer dda. Er enghraifft, mae’r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen wedi gwella yn dilyn gweithgareddau cynllunio ar y cyd. Mae pob athro yn cael cynnig ystod o gyfleoedd datblygu proffesiynol buddiol. Mae’r rhain yn cefnogi blaenoriaethau datblygu’r ysgol a blaenoriaethau unigol ar gyfer gwella yn llwyddiannus. Mae cynorthwywyr addysgu yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd hyfforddi hefyd, er enghraifft yn ymwneud â’r defnydd o gyfryngau digidol a rheoli ymddygiad.

Mae’r ysgol yn defnyddio’i chyllideb yn effeithiol. O ganlyniad, mae digon o adnoddau gan yr ysgol, gan gynnwys llyfrau darllen o ansawdd uchel ac ystod o dechnoleg ddigidol ddiweddar i fodloni anghenion disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio grantiau ychwanegol yn addas i gefnogi dysgu disgyblion, er enghraifft i ddarparu cymorth emosiynol ar gyfer disgyblion targedig ac i ddatblygu dysgu yn yr awyr agored. Fodd bynnag, nid yw disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn tueddu cyflawni gystal â disgyblion eraill.

O ystyried safonau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol, mae’r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6802017 - Maesglas Primary & Nursery**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 298 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 38.4 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 24 | 32 | 50 | 31 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 79.2 | 87.5 | 86.0 | 87.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 32 | 50 | 31 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 90.6 | 88.0 | 93.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 20.8 | 34.4 | 18.0 | 32.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 32 | 50 | 31 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 87.5 | 94.0 | 87.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 29.2 | 34.4 | 20.0 | 41.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 24 | 32 | 50 | 31 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 96.9 | 90.0 | 90.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 29.2 | 46.9 | 18.0 | 51.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6802017 - Maesglas Primary & Nursery**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 298 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 38.4 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 34 | 25 | 29 | 33 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 76.5 | 72.0 | 82.8 | 84.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 25 | 29 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 82.4 | 80.0 | 82.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 29.4 | 24.0 | 27.6 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 25 | 29 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 79.4 | 80.0 | 86.2 | 84.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 14.7 | 24.0 | 27.6 | 30.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 25 | 29 | 33 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.3 | 84.0 | 86.2 | 84.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.5 | 16.0 | 27.6 | 18.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 116 | 110<br>95% | 6<br>5% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 118 | 96<br>81% | 22<br>19% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 118 | 111<br>94% | 7<br>6% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 118 | 108<br>92% | 10<br>8% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 117 | 110<br>94% | 7<br>6% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 118 | 105<br>89% | 13<br>11% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 117 | 115<br>98% | 2<br>2% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 118 | 111<br>94% | 7<br>6% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 117 | 104<br>89% | 13<br>11% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 117 | 110<br>94% | 7<br>6% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 115 | 52<br>45% | 63<br>55% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 118 | 97<br>82% | 21<br>18% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | 6 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 55% | 45% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 11 | 8 | 2 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 18% | 9% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 11 | 10 | 0 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 91% | 0% | 9% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 11 | 7 | 3 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 64% | 27% | 9% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 11 | 2 | 7 | 2 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 18% | 64% | 18% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 10 | 6 | 3 | 0 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 60% | 30% | 0% | 10% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 9 | 5 | 4 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 5 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 45% | 55% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 11 | 6<br>55% | 4<br>36% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 7 | 4<br>57% | 3<br>43% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 5<br>50% | 5<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Elizabeth Jane Counsell | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Erica Lonsdale | Arolygydd Tîm |
| Elizabeth Barry | Arolygydd Tîm |
| Mary Elspeth Dyas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Catherine Mary Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Phil Harrhy | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.